

Gaeaf 2013-14

Les Larsen, Penisarwaun, Caernarfon

Mae trigolion yma yn cwyno am y gaeaf eleni; y gwyntoedd tymhestlog, y glaw di-baid, y mellt a'r taranau, a'r cenllysg. Ond cwyn wahanol oedd gan y plant - gofidio am na chawsant eira y gaeaf hwn. Ai dyma'r gaeaf cyntaf i ni gael heb eira na rhew ym Mhenisarwaun?

O'r 90 diwrnod o Ragfyr y 1af hyd at Chwefror 28ain roedd 73 yn ddyddiau efo glaw ynghyd a nifer fawr o wyntoedd digon cryf i ddadwreiddio coed a difrodi adeiladau. Yr oedd Rhagfyr yn lawog gyda 204.5mm [tua 8 modfedd] o law yn disgyn ar 20 diwrnod. Yn yr un modd mis glawog a gwyntog oedd Ionawr, tywalltodd y cymylau 228.5 mm arnom ar 29 diwrnod. Tebyg oedd Chwefror gyda 229mm ar 24 o ddyddiau. Ac felly cawsom 662 mm neu tua 26 modfedd o law mewn tri mis.

Yr hyn a oedd yn peri problemau oedd y gwyntoedd dinistriol fel ar y 27 o Ragfyr pan siglwyd Aberdaron gan wyntoedd 1070 m.y.awr neu y storm egr iawn ar 25 o Ionawr; storm yn cynnwys mellt, taranau, gyda'r lle yn wyn am ychydig oherwydd cawod drom o genllysg. A beth am storm y 12fed o Chwefror; un digon cryf i fwrw ni i fyd tywyll a didrydan.

Ni chawsom eira onibai am y mymryn a ddaeth am ychydig o amser ar yr 11eg o Chwefror. Yn wir y tymheredd isaf oedd -0.8c ar Dachwedd y 23ain. Ond y peth hynod am y gaeaf yma oedd ei fwynder. Serch hynny yr oedd digon o eira ar y mynyddoedd uchaf yn enwedig y rhai 2500tr neu yn uwch. Cyfrais y dyddiau gydag eira boed yn orchudd neu'n lluwch. Gwelais eira arnynt fel a ganlyn; Rhagfyr 12 diwrnod, Ionawr 21, a Chwefror 24; hynny yw 57 diwrnod gan gofio nad oedd y mynyddoedd yn weladwy ar hyd yr amser ac felly nid oedd ambell i ddiwrnod wedi ei gyfri. Yr oedd y gaeaf hwn yn unigryw ac yn un i'w gofio fel 1947, 1952 ac 1963.